



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



Gwasanaethau Myfyrwyr



Gwasanaethau Myfyrwyr

Gwasanaeth
Gyrfaoedd a
Chyflogadwyedd



Gwasanaeth
Cynghori




Gwasanaeth
Anabled



Gweinyddiaeth
Myfyrwyr



Ennyn Diddordeb
Myfyrwyr



Cefnogi
Myfyrwyr



Sgiliau
Astudio



Darpariaeth
Ffydd



Gwasanaethau Myfyrwyr

Rydym yn darparu gwasanaethau i fyfyrwyr ar draws yr amrywiaeth lawn o faterion yn ymwneud â bywyd myfyriwr, o ymgartrefu yn y brifysgol, i gyflawni eich potensial academiaidd a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gael swydd yn y dyfodol. Mae ein holl wasanaethau yn cael eu darparu gan weithwyr proffesiynol profiadol sydd yn meddu ar y wybodaeth arbenigol i gefnogi eich cynnydd academiaidd a datblygu eich potensial fel y gallwch lwyddo yn eich gyrfa yn y dyfodol. Mae'r Gwasanaethau Myfyrwyr wedi ennill y Safon Matrics: safon ansawdd y DU mewn perthynas â gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, ac rydym wedi ymrwmo i wella ein gwasanaethau'n gyson i gwrdd ag anghenion ein corff myfyrwyr amrywiol yn y ffordd orau.

Ffôn: 01248 382024

E-bost: gwasanaethaumyfyrwyr@bangor.ac.uk


www.bangor.ac.uk/student-services/index.php.cy



Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

Gall y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd helpu myfyrwyr i ennill a datblygu'r sgiliau fydd yn bwysig iddynt yn ddiweddarach mewn bywyd, yn arbennig sgiliau cyflogadwyedd. Darperir amrywiaeth o gyfleoedd gwaith a lleoliad, gyda'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau personol a throsglwyddadwy a fydd yn ddefnyddiol pan ddaw i wneud cais am swyddi. Mae gan y gwasanaeth gyrfaoedd a chyflogadwyedd fynediad at rwydwaith eang o fusnesau lleol, recriwtwyr graddedigion (lleol a chenedlaethol), sefydliadau gwirfoddol ac elusennol a chyrrff proffesiynol. Mae'n hyrwyddo amrywiaeth eang o gyfleoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i raddedigion, yn ogystal â lleoliadau gwaith ac interniaethau, cyfleoedd i wirfoddoli a swyddi lleol rhan-amser. Drwy gydol y flwyddyn academaidd rydym yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau, yn cynnwys gweithdai sgiliau chwilio am swydd, sesiynau datblygu sgiliau dan arweiniad cyflogwyr, a ffeiriau.

Bwriad Gwobr Cyflogadwyedd Bangor (GCB) yw gwella rhagolygon gyrfaoel myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig Bangor, yn y tymor byr a'r tymor hir. Mae'n cynnig cyfleoedd am ddim i feithrin y sgiliau a'r profiadau y mae ar gyflogwyr eu hangen, a hynny wedi'i seilio ar ymchwil ddiweddaraf. Bydd



Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

graddedigion sydd â GCB yn cael tystysgrif, trawsgrifiad a dilysiad ffurfiol o'u gweithgareddau allgyrsiol gan Brifysgol Bangor. Mae'r wobwr hefyd yn cynnig cyrsiau hyfforddi am ddim, paratoi at gyfweiliadau, mynediad at feddalwedd ar-lein am yrfaoedd a helpu i ddatblygu portffolio o dystiolaeth o sgiliau i gyflogwyr.

Mae'r rhaglen Byddwch Fentrus yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau mentergarwch trwy weithdai rhyngweithiol, cystadlaethau a gweithgareddau profiad masnachu yn ogystal â rhoi mentora un-i-un i gefnogi darpar entrepreneuriaid i ddatblygu syniadau am fusnes.

Ffôn: 01248 382071

E-bost: gyrfaoedd@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/careers/index.php.cy



Gwasanaeth Cynghori

Mae'r Gwasanaethau Cwnsela Myfyrwyr yn cynnig amrywiaeth o adnoddau i gefnogi myfyrwyr yn ystod eu cyfnod yn y brifysgol. Byddem yn annog myfyrwyr sy'n chwilio am gymorth i edrych ar ein hadnoddau Hunan-gymorth yn y lle cyntaf - mae'r rhain yn cynnwys 'cysylltiadau, podlediadau ac apiau hunan-gymorth' a 'thafleni gwybodaeth' am amrywiaeth o faterion.

Mae'r gwasanaeth yn cynnig grwpiau, gweithdai a darlithoedd i fyfyrwyr trwy gydol y flwyddyn academiaidd, gan gynnwys gweithdai Mi Fedra i a darlithoedd Adeiladu Gwytnwch a sesiynau Blasu Ymwybyddiaeth Ofalgar.

Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyfle i drafod materion personol a materion sy'n peri gofid, gyda chwmselydd proffesiynol a chymwys, mewn amgylchedd diogel a chyfrinachol.

Ffôn: 01248 388520

E-bost: cynghori@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/student-services/counselling/index.php.cy



Gwasanaeth Anabledd

Nid pawb sy'n defnyddio ein Gwasanaeth fydd yn meddwl amdanynt eu hunain fel person anabl. Rydym yn defnyddio'r un term hwn i gwmpasu'r rhwystrau sy'n wynebu myfyrwyr sydd ag amrywiaeth eang o amhariadau corfforol a synhwyrdd, cyflyrau iechyd tymor hir, anawsterau iechyd meddwl ac anawsterau dysgu penodol megis dyslecsia, dyspracsia neu ADHD. Mae gennym nifer o dimau sy'n gallu eich helpu.

Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol (CCDP)

Caiff CCDP eu llunio ar gyfer myfyrwyr unigol i ddisgrifio'r trefniadau a'r strategaethau sydd eu hangen i'w cynorthwyo i oresgyn rhwystrau. Bydd angen ichi roi tystiolaeth ddogfennol gan eich meddyg, seicolegydd cofrestredig neu athro/athrawes cymwys arbenigol, (gweler: www.bangor.ac.uk/student-services/disability/index.php).

Lwfansau Myfyrwyr Anabl (LMA)

Os yw'n berthnasol, gallwn helpu myfyrwyr wneud cais i'w darparwr cyllid am LMA i helpu talu'r costau ychwanegol sy'n gallu codi o ran trefnu a chyflawni gofynion astudio os yw rhywun yn anabl.



Gwasanaeth Anabledd

Y Ganolfan Asesu

Gall myfyrwyr sy'n credu efallai fod dyslecsia ac/neu anhawster dysgu penodol arall arnynt gael eu sgrinio'n anffurfiol wyneb yn wyneb am ddim. Yna, os yw hynny'n briodol, gall un o'n haseswyr cymwys wneud asesiad diagnostig llawn. Nid yw'r gwasanaeth am ddim ond mae'r gost dipyn yn îs i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gwrs ym Mhrifysgol Bangor.

Canolfan Access

Mae ein Canolfan Access achrededig yn cynnal Asesiadau Anghenion Astudio ar gyfer LMA. Er bod Canolfannau Asesu eraill yn yr ardal, ni yw'r unig un sydd wedi'i leoli yn y Brifysgol, ac yn sgil ein perthynas waith agos mae gennym wybodaeth fanwl am ei chwricwlwm a'i chyfleusterau. Mae gan bob un o'n haseswyr o leiaf chwe blynedd o brofiad o gymorth DSA, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt o leiaf 10 mlynedd o brofiad.

Os ydych yn ystyried astudio ym Mangor, gallwn eich helpu i hawlio'n ôl y gost o ddod i'n hapwyntiad.



Gwasanaeth Anabledd

Cefnogaeth Anhawster Dysgu Penodol

Mae cefnogaeth ymgynghorol a chefnogaeth gyda sgiliau astudio arbenigol unigol un i un ar gael i fyfyrwyr sydd ag Anhawster Dysgu Penodol.

Cynghorwyr Anabledd

Darparu gwybodaeth am anabledd, y gwasanaethau a'r gefnogaeth a allai fod ar gael a chyngor ynglŷn â strategaethau i'w gwneud yn haws ymdopi ag astudio a thasgau pob dydd.

Cynghorwyr Iechyd Meddwl

Mae gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar gael i fyfyrwyr sy'n gwella o salwch meddwl, neu sy'n dechrau profi anawsterau iechyd meddwl neu'n wynebu argyfwng iechyd meddwl tra maent yn y Brifysgol. Mae Cynghorwyr Iechyd Meddwl yn asesu anghenion iechyd meddwl ac yn helpu osgoi neu reoli sefyllfaoedd argyfyngus, yn ogystal â darparu gwybodaeth am broblemau a gwasanaethau iechyd meddwl.



Gwasanaeth Anabledd

Cymorth ac eithrio Cymorth Meddygol

Os yw myfyriwr wedi cael ei asesu ac mae'r asesiad yn dangos bod angen penodol, rydym yn darparu gweithwyr cefnogi arbenigol, gan gynnwys cynorthwywyr ymarferol, pobl i wneud nodiadau, tiwtoriaid arbenigol a mentoriaid arbenigol.

Cyfrinachedd

Mae pob trafodaeth yn gyfrinachol ac ni wnawn rannu gwybodaeth oni bai fod rhywun yn y brifysgol angen gwybod, pan fydd hynny'n briodol a chydach caniatâd chi.

Ffôn: 01248 383620 / 382032

E-bost: gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/index.php.cy



Gweinyddiaeth Myfyrwyr

Mae Gweinyddu Myfyrwyr yn cefnogi ac yn ategu gweithgareddau addysgu a dysgu'r Brifysgol ac yn cynnig amryw o wasanaethau hanfodol i fyfyrwyr megis amserlennu, arholiadau a graddio. Mae pedair prif ganolfan Gweinyddu Myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor - y Safle Gwyddoniaeth (yn Adeilad Wheldon); Prif Adeilad y Celfyddydau (ar lawr cyntaf Adeilad Newydd y Celfyddydau); Safle'r Normal (yn Eifionydd) a Fron Heulog/Wreccsam (yn adeilad Fron Heulog).

Gall staff yn y Canolfannau hyn helpu gydag ymholiadau megis:

- Tystysgrifau Cofrestru (i agor cyfrif banc etc.)
- Ymuno a chofrestru ar-lein
- Dewisiadau modiwl
- Cyflwyno gwaith cwrs ac unrhyw ymholiadau ynglŷn â marciau ac arholiadau.

Ffôn: 01248 388484

E-bost: gweinyddiaeth-myfyrwyr@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/ar/main/sturec/index.php.cy



Ennyn Diddordeb Myfyrwyr

Ym Mhrifysgol Bangor rydym eisiau gweithio gyda myfyrwyr i sicrhau bod eich addysg yr orau y gall fod. Dyna pam rydym yn cynnal amrywiaeth o arolygon ac ymgyrchoedd i roi'r cyfle i fyfyrwyr roi eu hymateb a chymryd rhan.

Mae **#AryCyd** yn ymgyrch ar draws y brifysgol sy'n dwyn sylw at y gwaith cadarnhaol a wneir yn sgil sylwadau gan fyfyrwyr; mae'n dangos sut mae staff a myfyrwyr wedi cydweithio i greu newid.

Bydd **Gwerthuso Cwrs** yn digwydd ar ddiwedd pob semester ac mae'n gyfle i fyfyrwyr roi adborth i'w darlithwyr.

Mae'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (NSS) yn gyfle i fyfyrwyr y flwyddyn olaf roi eu barn am eu cyfnod fel myfyriwr.

Mae'r **Arolwg Deilliannau Graddedigion** yn arolwg cenedlaethol sy'n casglu gwybodaeth am hynt a datblygiad gyrfa graddedigion 15 mis ar ôl iddynt orffen eu hastudiaethau.

Ffôn: 01248 388476

E-bost: ennyndiddordeb@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/studentengagement/index.php.cy



Cefnogi Myfyrwyr

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr yn gyfrifol am roi 'arferion gorau' ar waith ar draws y brifysgol o ran atal aflonyddu a rhoi cefnogaeth pan fo hynny'n digwydd. Mae'r swyddog yn aelod arbenigol o staff a all gynnig cyngor ac arweiniad i fyfyrwyr a chydweithwyr ar amrywiaeth eang o faterion yn ymwneud â chynwysoldeb, yn cynnwys trais ar sail rhyw a throedd casineb.

Ffôn: 01248 388021

E-bost: cynhwysol@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/inclusive-community/index.php.cy

Tai Myfyrwyr

Bwriad y Swyddfa Tai Myfyrwyr yw cynnig siop un stop ar gyfer anghenion myfyrwyr yn y sector tai preifat a rhoi'r gallu i chi wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Gallwn eich helpu i wneud y dewisiadau tai cywir gan ein bod yn hysbysebu eiddo trwy Studentpad www.bangorstudentpad.co.uk a rhoi arweiniad am gcontractau a materion tai.

Ffôn: 01248 382034/382883

E-bost: taimyfyrwyr@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/student-services/studenthousing/index.php.cy



Cefnogi Myfyrwyr

Cyngor ariannol


Gall yr Uned Cymorth Ariannol helpu gyda phob agwedd ar gyllid myfyrwyr yn cynnwys:

- **Cyllid ar gyfer cyrsiau llawn-amser a rhan-amser i israddedigion** - yn cynnwys faint o gyllid y gall myfyrwyr ei gael, apeliadau ac ailasesu
- **Cyllid i ôl-raddedigion** - cyngor ar gyfleoedd posibl i gael cyllid.
- **Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau'r Brifysgol** - mae'r Brifysgol yn awyddus i sicrhau fod gan fyfyrwyr o bob cefndir fynediad at ariannu digonol yn ystod eu hastudiaethau. Mae amrywiaeth o fwrsariaethau ac ysgoloriaethau ar gael bob blwyddyn i fyfyrwyr newydd ac i fyfyrwyr sy'n dychwelyd.
- **Cronfa Galedi a Grant Argyfwng** - mae'r gronfa yn rhoi cymorth ariannol dewisol i gynorthwyo myfyrwyr sy'n wynebu caledi ariannol annisgwyl yn ystod blwyddyn academaidd. Mae'r gronfa ar gael i bob myfyriwr cofrestredig.
- **Cyllidebu** - Mae gallu rheoli'ch sefyllfa ariannol fel myfyriwr yn bwysig iawn, cysylltwch â'r Uned os ydych angen unrhyw help i lunio cyllideb, neu os ydych angen cyngor ariannol ar sut i reoli eich arian.

Ffôn: 01248 383566 / 383637

E-bost: cymorthariannol@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/studentsservices/moneyadvice/index.php.cy



Gwasanaethau Myfyrwyr

Cefnogi Myfyrwyr

Gadael Astudiaethau dros Dro

Mae'r brifysgol yn cydnabod nad yw cynlluniau bob tro yn gweithio allan. Cyngor ac arweiniad i fyfyrwyr sy'n darganfod eu bod angen cael seibiant o'u hastudiaethau, neu adael y brifysgol.

Ffôn: 01248 383566

E-bost: cefnogimyfyrwyr@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/student-services/student_support.php.cy



Canolfan Sgiliau Astudio

Rydym yn darparu'r ystod a ganlyn o weithgareddau i unigolion a grwpiau i'ch helpu i ddatblygu eich sgiliau ysgrifennu academaidd, mathemateg, ystadegau, arholiadau, rheoli tasgau, ac ymchwil:

- Apwyntiadau ar sgiliau ysgrifennu ac astudio
- Apwyntiadau a galw heibio i drafod mathemateg ac ystadegau
- Gweithdai ar sgiliau astudio a thraethodau hir
- Grwpiau ysgrifennu PhD
- Adnoddau ar-lein

Gellir archedu apwyntiadau a lleoedd mewn gweithdai ar-lein.

Mae ein hapwyntiadau ar ysgrifennu a sgiliau astudio yn cael sgôr o 5 seren yn gyson gan ein myfyrwyr israddedig ac ôl-radd. Fe'u cynhelir gan dîm o gynghorwyr astudio a myfyrwyr sydd wedi'u hyfforddi fel mentoriaid ysgrifennu. Mae ein dull o weithredu yn rhoi chi a'ch amcanion ynghanol y drafodaeth a gellir ei ddefnyddio i edrych ar bethau fel strategaethau ysgrifennu a darllen, ffyrdd o drefnu syniadau, cynllunio a rheoli amser. Gallwn eich helpu i ddatblygu drafftiau o draethodau, o'r dechrau i ddrafft terfynol, a gwella eich sgiliau prawf-ddarllen.



Canolfan Sgiliau Astudio

Mae gwasanaeth mathemateg ac ystadegau'r Ganolfan yn cynnig apwyntiadau unigol a sesiynau galw heibio wedi'u hamserlennu. Arweinir y sesiynau gan eich cwestiynau ac fe'u cynhelir gan diwtor profiadol. Gellwch gael cymorth gydag ymarferion, taflenni tiwtorial, hen bapurau arholiad, Safemedicate, a chyda dulliau a dadansoddi ystadegol (SPSS ac Excel yn arbennig).

Drwy gydol y flwyddyn academiaidd rydym yn cynnal gweithdai sy'n rhoi cyfle i chi archwilio a datblygu sgiliau craidd mewn astudio ac ymchwil academiaidd mewn trafodaeth gyda myfyrwyr eraill. Gweithdai traws-ddisgyblaethol yw'r rhain ac, yn ogystal â rhoi arweiniad i astudio mewn prifysgol, maent yn canolbwyntio ar faterion fel dadansoddi aseiniadau, rhoi cyflwyniadau'n hyderus, gwneud y defnydd gorau o adborth, ysgrifennu cynigion ymchwil, a mynd i'r afael ag adolygiadau llenyddiaeth.



Canolfan Sgiliau Astudio

Mae ein grwpiau ysgrifennu ymchwil yn gyfle i fyfyrwyr doethuriaeth rannu syniadau a phrofiadau'n ymwneud ag ysgrifennu a'u ffordd o fynd ati i lunio thesis, ac maent yn gyfle gwych i feithrin cymuned a chael sylwadau. Mae'r grwpiau'n cyfarfod pob pythefnos ac, oherwydd eu bod yn draws-ddisgyblaethol eu natur, maent yn cynyddu'r angen i ddatblygu eglurder meddwl a mynegiant.

Ar wefan y Ganolfan ceir casgliad o adnoddau astudio testunol a rhyngweithiol y gellwch fynd atynt yn ôl y galw i ystyried eich dull eich hun o ymdrin ag astudio academiaidd. Cynigir arweiniad ar ysgrifennu, darllen, ymchwil, cyflwyniadau, arholiadau a chyfeirio.

Ffôn: 01248 382689

E-bost: sgiliauastudio@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/studyskills/index.php.cy



Darpariaeth Ffydd

Tîm y Gaplaniaeth

Mae Tîm y Gaplaniaeth ym Mhrifysgol Bangor yn gysylltiedig â'r Gwasanaethau Myfyrwyr ac yn gweithio â hwy i gynnig gofal a chefnogaeth fugeiliol, ar sail aml-ffydd, i fyfyrwyr a staff y brifysgol.

Mae'r tîm, sy'n perthyn i wahanol draddodiadau ffydd, yn cyfarfod yn rheolaidd i sicrhau dull cydlynol o ymdrin â materion ffydd, gan barchu'r un pryd y gwahanol ddaliadau a thraddodiadau a goleddir gennym.

E-bost: caplaniaeth@bangor.ac.uk

Cyfleusterau Adeilad Rathbone

Mae Ystafell Dawel yn Anecs Rathbone ar Ffordd y Coleg sydd ar gael yn ystod oriau dysgu i unigolion ei defnyddio i weddio'n dawel ac i fyfyrïo.

Mae ystafell gyfarfod yn yr Anecs hefyd sydd ar gael i grwpiau ei harchebu i gynnal gweithgareddau sy'n gysylltiedig â ffydd.



Darpariaeth Ffydd

Mae toiledau ar wahân i ferched a dynion yn yr Anecs yn ogystal â thoiled hygyrch ac maent i gyd yn cynnwys cyfleusterau ymolchi at ddibenion crefyddol.

Gweddïau Mwslimaidd

Mae'r Ystafell Gyfarfod yn Anecs Rathbone ar gael ar gyfer Gweddïau Mwslimaidd rhwng 12.30–3.30 dydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r ystafell wedi'i rhannu'n ddwy â llen er mwyn rhoi man gweddïo ar wahân i ddynion a merched gyda mynedfeydd ar wahân.

E-bost: ffydd@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/studentservices/faith/local_faith.php.cy



Cefnogaeth Arall

Iechyd Myfyrwyr

Mae Canolfan Feddygol Bodnant yn darparu amrywiaeth eang o cyfleusterau meddygol ar gyfer myfyrwyr. 8yb a 6.30yp. Rhodfa Menai, Bangor.

Ffôn: 01248 364492

Diogelwch y Brifysgol

Ffôn: 01248 382795

E-bost: security@bangor.ac.uk

Swyddfa Neuaddau

Ffôn: 01248 382667

E-bost: neuaddau@bangor.ac.uk

Undeb Myfyrwyr

Ffôn: 01248 388000

E-bost: undeb@undebbangor.com



Gwasanaethau Myfyrwyr

Cysylltu â ni



Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd, LL57 2DF

Ffôn: 01248 382024

E-bost: gwasanaethaumyfirwyr@bangor.ac.uk

www.bangor.ac.uk/student-services/index.php.cy

